

# Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr

Gweithdrefn 01: 2018 Fersiwn 01

Daw i rym: 1 Tachwedd 2018



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Mae'r Weithdrefn hon yn amlinellu sut y gall myfyriwr neu gyn-fyfyriwr Prifysgol Bangor gwyno am eu cwrs neu am unrhyw wasanaeth arall a gynigir gan y Brifysgol.

---

## Rhagarweiniad

1. Mae'r Weithdrefn hon ar gyfer yr holl fyfyrwyr neu gyn-fyfyrwyr sy'n dymuno gwneud cwyn am eu rhaglen (cwrs) academiaidd neu am unrhyw wasanaethau eraill sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol. Defnyddir y gair 'myfyriwr' yn y weithdrefn hon ar gyfer myfyrwyr presennol (sydd wedi cofrestru) a chyn-fyfyrwyr. Pan fo'r materion a godir yn effeithio ar nifer o fyfyrwyr, gall y myfyrwyr hynny gyflwyno cwyn fel cwyn grŵp.
2. Ni ddylid defnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr at y dibenion canlynol:
  - I gwyno am ymddygiad myfyriwr arall. (Dylid cyfeirio'r cwynion hynny at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o dan weithdrefnau disgyblu myfyrwyr y Brifysgol).
  - I gwyno am ymddygiad aelod staff pan nad oes cysylltiad â gwaith neu brofiad academiaidd y myfyriwr. (Rhaid cyfeirio'r cwynion hynny at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn y lle cyntaf i benderfynu a ddylid cyfeirio'r gŵyn at yr adran Adnoddau Dynol).
  - I apelio yn erbyn canlyniadau asesiad academiaidd, yn erbyn penderfyniad ar gynnydd academiaidd, neu yng nghyswllt cymhwyster terfynol. (Mae'r Weithdrefn Cadarnhau ac Apelio ar gael yn [bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy](http://bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy)).
3. Mae'r egwyddorion sylfaenol yn cynnwys:
  - Hawl myfyrwyr i wneud y canlynol:
    - Cwyno am raglen neu am unrhyw wasanaeth arall a gynigir gan y Brifysgol.
    - Cael proses wedi ei dogfennu'n eglur ar gyfer delio â chŵyn.
    - Preifatrwydd a chyfrinachedd wrth ddelio â chŵyn. Gall myfyrwyr nodi eu bod yn dymuno i'r Apêl neu elfennau ohoni (er enghraifft, datganiad gan dyst neu dystiolaeth feddygol) aros yn gyfrinachol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gofyn i staff sy'n gysylltiedig â'r myfyriwr wneud sylwadau ar y datganiadau a wnaed neu ymateb iddynt.
    - Derbyn rhesymau dros unrhyw benderfyniadau ynghylch cwyn.
    - Cael gwybod am y cyfle i apelio ymhellach.
  - Gweithdrefn cwynion sy'n anwahaniaethol ac yn ddiragfarn.
  - Gweithdrefn sy'n cydnabod buddiannau myfyrwyr, staff a'r Brifysgol, ac sydd ar yr un pryd yn sicrhau tegwch i'r holl bartïon.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Cod Ymarfer hwn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

- Rhaid i'r myfyriwr ac adrannau perthnasol o'r Brifysgol gael gwybod am y canlyniadau ym mhob cam o gŵyn.
  - Rhaid i fyfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff weithredu'n rhesymol a theg tuag at ei gilydd, a thrin y prosesau eu hunain â pharch. Dylai achwynwyr nodi bod gan y Brifysgol gyfrifoldeb i warchod ei staff rhag ymddygiad annerbyniol.
4. I ddiben y Weithdrefn hon, diffinnir cwyn fel mynegiad o anffodlonrwydd gan un neu fwy o fyfyrwyr ynghylch gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Brifysgol, neu ynghylch safon gwasanaeth a ddarperir gan y Brifysgol neu ar ei rhan. Mae'r mathau o gwynion y gellir eu gwneud yn defnyddio'r Weithdrefn yn cynnwys:
- Gwybodaeth anghywir am raglen academiaidd neu wasanaeth arall.
  - Addysgu neu oruchwyliath wael.
  - Cyfleusterau annigonol.
  - Methiant gwasanaeth Prifysgol boed yn un academiaidd neu anacademiaidd.
5. Nod y Weithdrefn hon yw datrys cwynion yn anffurfiol. Yn aml gellir datrys pryderon yn anffurfiol os cânt eu codi mewn ffordd amserol a rhesymol. Gall fod amgylchiadau lle gall cwyn gael ei chyfeirio'n syth i'r cam ffurfiol. Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys:
- Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â mwy nag un rhan o'r Brifysgol.
  - Lle mae'n glir, ar sail y gŵyn a'r dystiolaeth sydd ar gael, ei bod yn annhebygol y byddai'r gŵyn yn cael ei datrys yn anffurfiol.
6. Rhaid cyflwyno cwynion gan fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr o fewn 12 mis i'r digwyddiad(au) a arweiniodd at y gŵyn. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn ystyried a ellir ystyried cwynion sy'n cael eu derbyn ar ôl y terfyn amser hwn a bydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw resymau a roddir dros gyflwyno'r gŵyn yn hwyr.
7. Mae'r Weithdrefn hon yn cynnwys terfynau amser ar gyfer ymateb i gŵyn. Os bydd oedi, rhaid rhoi gwybod drwy lythyr i'r myfyriwr, a rhaid rhoi amcangyfrif o'r amser y bydd ei angen i ystyried y gŵyn.
8. Gall myfyrwyr gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr i gael cyngor cyfrinachol ac/neu rywun i'w cynrychioli.
9. Gall myfyrwyr ddod â rhywun gyda nhw, neu gael rhywun i'w cynrychioli, mewn unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth yn ymwneud â chŵyn. Mae hyn yn cynnwys, Undeb y Myfyrwyr, Tiwtor Personol, gweithiwr cefnogi, aelod o'r teulu neu ffrind. Os mai cynrychiolydd cyfreithiol fydd yn dod gyda myfyriwr i gyfarfod, rhaid i'r myfyriwr roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o fewn 5 diwrnod gwaith i gael ei hysbysu o ddyddiad cyfarfod. Caniateir i fyfyrwyr fod yn bresennol drwy fideo gynadledda, ond dylid rhoi prawf ymlaen llaw ar gryfder y cysylltiad a dylai cyswllt llinell ffôn arferol fod ar gael wrth gefn.
10. Yn y Weithdrefn hon, gall y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, Pennaeth yr Ysgol/Gwasanaeth a'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) ddirprwyo eu cyfrifoldebau i enwebai.
11. Yn y weithdrefn hon, defnyddir y term 'tyst' ar gyfer yr unigolion hynny a wahoddir i ddod i Bwyllgor Ymchwilio. Oherwydd mai swyddogaeth y Pwyllgor yw ymchwilio i gŵyn, nid yw ei drafodaethau'n rhai gwrthwynebus ac felly nid ystyrir bod tystion o

blaid neu yn erbyn y myfyriwr. Swyddogaeth tystion yw rhoi gwybodaeth ffeithiol i'r Pwyllgor a fydd yn llywio penderfyniad y Pwyllgor. Gall unrhyw un a wahoddir i fod yn bresennol fel 'tyst' ddod â rhywun arall gyda nhw ac mae ganddynt yr hawl i ymateb i'r gŵyn yn ysgrifenedig ac mewn Pwyllgor Ymchwilio.

12. Yn ystod unrhyw gam o'r Weithdrefn hon, gall staff sy'n ymwneud â chŵyn benderfynu ei bod yn briodol ceisio datrys y pryderon drwy gyfryngu. Rhaid cael cytundeb pawb sy'n gysylltiedig â'r gŵyn cyn y gellir bwrw ymlaen â chyfryngu o'r fath. Mae'r broses gyfryngu'n golygu "camu o'r neilltu" oddi wrth y Weithdrefn mewn ymgais i ddatrys y mater mewn modd derbyniol. Caiff y Weithdrefn ei gohirio tra bydd y cyfryngu'n mynd rhagddo. Bydd cyfryngu llwyddiannus yn arwain at sefyllfa lle mae'r holl bartïon yn cytuno ar ffordd ymlaen a chedwir cofnod o'r cytundeb y daethpwyd iddo. Os na fydd y cyfryngu'n llwyddiannus, rhaid ailafael yn y Weithdrefn o'r fan lle cafodd ei 'gohirio'.

### **Prosesau datrys anffurfiol**

13. Dylid trafod pryderon yn y lle cyntaf gydag aelod staff sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth (e.e. rhaglen, modiwl neu wasanaeth arall). Neu gellir trafod y pryderon gyda'r Tiwtor Personol neu'r Uwch Diwtor. Gellir codi pryderon cyffredinol trwy Bwyllgor Staff a Myfyrwyr yr Ysgol. Dylid cyflwyno'r cwynion ar ffurf ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir y bydd y sawl sy'n derbyn y gŵyn yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.
14. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon ar yr ymateb ar ôl rhoi gwybod am y pryderon (Gweler Paragraff 13), yna dylai'r myfyriwr gyflwyno'r pryderon ar ffurf ysgrifenedig i Bennaeth yr Ysgol/ Gwasanaeth. Dylai myfyrwyr ddisgrifio'r canlyniad yr hoffent ei weld. Disgwylir y bydd Pennaeth yr Ysgol/Gwasanaeth yn ymateb i'r gŵyn o fewn 20 diwrnod gwaith.
15. Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon ag ymateb Pennaeth yr Ysgol /Gwasanaeth (gweler Paragraff 14), yna dylid dilyn y weithdrefn ffurfiol (gweler Paragraff 16).

## **Gweithdrefn Cwynion Ffurfiol**

### **Ystyriaeth gan y Dirprwy Is-ganghellor**

16. Rhaid anfon cwynion ffurfiol yn ysgrifenedig. Rhaid i gwynion ffurfiol gynnwys:

- Manylion llawn am y gŵyn.
- Rhestr o'r camau a gymerwyd i geisio datrys y gŵyn yn anffurfiol, ynghyd â manylion y sawl y cysylltwyd â nhw a'u hymateb(ion).
- Datganiad ynghylch pam mae'r myfyriwr yn dal yn anfodlon.
- Datganiad clir o'r canlyniad a ddymunir.
- Enw llawn a Rhif Adnabod Prifysgol y myfyriwr.

17. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cydnabod y gŵyn cyn pen 5 diwrnod gwaith.

18. Os na roddwyd manylion digonol, neu os nad oes tystiolaeth ddigonol i ddangos bod ymdrech wedi ei gwneud i ddatrys y mater yn anffurfiol, gall y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio gysylltu â'r myfyriwr a'r ysgol/gwasanaeth i ystyried ffyrdd o roi sylw i'r materion a godwyd yn y gŵyn.

19. Anfonir cwynion ffurfiol at y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu). Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) yn ymchwilio i'r gŵyn a gall yr ymchwiliad gynnwys cyfweiliadau gyda'r myfyriwr a staff y Brifysgol. Gall y Dirprwy Is-ganghellor ddewis un neu fwy o'r opsiynau canlynol:

- i. Penderfynu na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i'r gŵyn.
- ii. Cyfeirio'r gŵyn i'w hystyried o dan un o Weithdrefnau eraill y Brifysgol.
- iii. Cynnig atebion posib i'w hystyried gan y myfyriwr sydd wedi cwyno.
- iv. Cyfeirio'r gŵyn at Bwyllgor Ymchwilio (dewisir yr opsiwn hwn os yw cwyn yn arbennig o gymhleth neu os oes angen trafod nodweddion eraill ar y gŵyn ac os oes angen penderfyniad gan Bwyllgor Ymchwilio).

20. Os caiff yr atebion a gynigiwyd o dan 19iii eu gwrthod, bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) yn ailystyried y gŵyn ac yn dewis un o'r opsiynau ym mharagraff 19, a all gynnwys atebion eraill o dan 18iii.

21. Caiff penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor ei anfon at y myfyriwr gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

22. Gall myfyrrwyr apelio yn erbyn penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor trwy ysgrifennu at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio. Rhaid i'r myfyriwr egluro'r rhesymau dros yr apêl. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cydnabod derbyn y gŵyn cyn pen 5 diwrnod gwaith. Bydd y gŵyn yn cael ei hanfon at yr Is-ganghellor. Gall yr Is-ganghellor ymchwilio i'r gŵyn a bydd penderfyniad yr Is-ganghellor yn derfynol. Ar ôl i'r Is-ganghellor gwblhau ei ymchwiliad, bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n cael ei anfon at y myfyriwr yn unol â gofynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (Paragraff 32).

### **Ystyriaeth gan Bwyllgor Ymchwilio**

23. Os bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) yn cyfeirio cwyn at Bwyllgor Ymchwilio, bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn trefnu cyfarfod o'r

Pwyllgor. Rhaid cynnull Pwyllgor Ymchwilio ac ni all ystyried yr achos ar sail cyfathrebu electronig yn unig. Rhaid i aelodau Pwyllgor Ymchwilio fod fel a ganlyn:

- Cadeirydd: Dirprwy Is-ganghellor (ond nid y Dirprwy Is-ganghellor a fu'n ymchwilio i'r gŵyn yn unol â'r disgrifiad ym mharagraff 19) neu Ddeon Coleg (ond nid Deon y Coleg lle mae'r myfyriwr yn astudio)
- 2 aelod o'r Senedd (ond nid o'r Ysgol lle mae'r myfyriwr yn astudio)
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
- Ysgrifennydd: Y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio

24. Ni chaiff aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio fod ag unrhyw gysylltiadau â'r achwynwyr neu â'r gŵyn ei hun, rhaid nad oes ganddynt fudd perthnasol mewn unrhyw faterion sy'n gysylltiedig a'r gŵyn, a rhaid iddynt ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau.

25. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am gyfansoddiad y Pwyllgor Ymchwilio ac yn trefnu cynnal y Pwyllgor ar adeg sy'n gyfleus i'r myfyriwr ac i aelodau'r Pwyllgor. Rhaid i'r myfyriwr roi gwybod i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn rhestr o aelodau'r Pwyllgor, os bydd ganddo/ganddi unrhyw wrthwynebiad i aelodaeth y Pwyllgor.

26. Y nod yw datrys y rhan fwyaf o gwynion sy'n cynnwys Pwyllgor Ymchwilio o fewn 2 fis o benderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu) i gyfeirio cwyn at Bwyllgor. Rhoddir gwybod i'r myfyriwr os oes unrhyw oedi yn y broses.

27. Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, mewn ymateb i gyfarwyddiadau gan y Cadeirydd, yn trefnu i dystion fod yn bresennol yn y Pwyllgor Ymchwilio. Arfer da yw bod yr ysgol/gwasanaeth, y gwnaed cwyn yn ei erbyn, yn cael ei gynrychioli yng ngwrandawriad y Pwyllgor gan Bennaeth yr Ysgol/Gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod dystion yn cael eu cefnogi ac yn sicrhau bod yr Ysgol/Gwasanaeth yn gwbl ymwybodol, ar y lefel uchaf, o'r materion a fydd yn cael eu codi gan y Pwyllgor.

28. Gall y myfyriwr ofyn am ohirio cyfarfod o'r Pwyllgor Ymchwilio os oes amgylchiadau lliniarol. Rhaid i'r myfyriwr wneud cais i ohirio cyfarfod o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Pwyllgor. Ni ellir gohirio cyfarfod Pwyllgor oni all y myfyriwr ddarparu tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor benderfynu a yw'r amgylchiadau lliniarol yn cyfiawnhau gohirio cyfarfod y Pwyllgor.

Cynhelir y Pwyllgor heb y myfyriwr os yw'r canlynol yn digwydd:

- i. Nid yw'r myfyriwr yn bresennol yn y cyfarfod, ac ni roddir eglurhad dros hynny.
- ii. Nid yw'r myfyriwr wedi cysylltu â'r ysgrifennydd o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor i ofyn am ohirio'r cyfarfod.
- iii. Mae'r Cadeirydd yn penderfynu nad yw'r amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd gan y myfyriwr yn cyfiawnhau gohirio'r cyfarfod.

29. Bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn cael ei gynnal fel a ganlyn, oni bai y nodir yn wahanol oherwydd rhesymau penodol a chyda cytundeb pawb fydd yn rhan ohono.

Mewn sesiwn gaeedig:

- Bydd aelodau'r Pwyllgor yn adolygu prif elfennau'r gŵyn.

Mewn sesiwn agored gyda phawb sy'n cymryd rhan:

- Bydd y Cadeirydd yn esbonio cylch gwaith y Pwyllgor a'r penderfyniadau y gall eu gwneud.
- Gall y myfyriwr grynhoi prif elfennau'r gŵyn.
- Gall y tystion ymateb i'r gŵyn.
- Gall aelodau'r Pwyllgor holi'r myfyriwr a'r tystion.
- Gall y tystion gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu sylwadau i gloi.
- Gall y myfyriwr gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu sylwadau i gloi.
- Bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r myfyriwr y bydd penderfyniad y pwyllgor yn cael ei anfon ar ffurf ysgrifenedig ar ôl i'r Is-ganghellor ei gymeradwyo.

Mewn sesiwn gaeedig:

- Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r gŵyn ac yn cymeradwyo un o'r camau gweithredu canlynol:
  - (i) Nad oes angen ymchwiliad pellach a dylid cyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Is-ganghellor mewn adroddiad a fydd wedi ei ysgrifennu gan yr Ysgrifennydd a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd.
  - (ii) Nad oes angen ymchwiliad pellach a dylid cyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Is-ganghellor mewn adroddiad a fydd wedi ei ysgrifennu gan yr Ysgrifennydd a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd ar ôl i holl aelodau'r Pwyllgor ystyried drafft ohono.
  - (iii) Mae angen ymchwiliad pellach a bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull i ystyried y dystiolaeth ychwanegol.

30. Pan fydd Pwyllgor yn ailgynnull (fel y disgrifir ym mharagraff 29), bydd fel rheol yn cyfarfod fel sesiwn gaeedig a bydd yn cymeradwyo un o'r camau gweithredu canlynol:

- (i) Nad oes angen ymchwiliad pellach a dylid cyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Is-ganghellor mewn adroddiad a fydd wedi ei ysgrifennu gan yr Ysgrifennydd a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd.
- (ii) Nad oes angen ymchwiliad pellach a bod rhaid cyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Is-ganghellor mewn adroddiad a fydd wedi ei ysgrifennu gan yr Ysgrifennydd a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd ar ôl i holl aelodau'r Pwyllgor ystyried drafft ohono.

31. Caiff y myfyriwr wybod yn ysgrifenedig gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio beth yw penderfyniad y Dirprwy Is-ganghellor. Bydd llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'n cael ei anfon at y myfyriwr yn unol â gofynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (Paragraff 32).

32. Os bydd myfyriwr yn dal yn anfodlon ar ôl i'r holl weithdrefnau mewnol gael eu dilyn i'r eithaf, ac ar ôl i lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gael ei anfon, gall gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae manylion y weithdrefn hon ar gael ar wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol neu gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.

Cymeradwywyd gan: Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.

Dyddiad Cymeradwyo: 4 Hydref 2018.

Perchennog y Ddogfen: Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio.

Amllder Adolygu: Bob tair blynedd.

Yn disodli: Fersiwn Hydref 2017.

**PRIFYSGOL BANGOR**  
**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**  
**TEMPLED AR GYFER DATBLYGU POLISIŲAU/RHEOLIADAU NEWYDD**

Dylid cynnwys Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisi newydd, adolygu polisi a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol er mwyn sicrhau y ceir gwared ag unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.<sup>1</sup>

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith ar gydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau â nodweddion wedi eu diogelu fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| <b>Oedran</b>                        | <b>Anabledd</b>         | <b>Ailddynodi gender</b> | <b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b> | <b>Yr Iaith Gymraeg</b> |
|--------------------------------------|-------------------------|--------------------------|----------------------------------|-------------------------|
| <b>Hil</b>                           | <b>Crefydd a chredo</b> | <b>Rhyw</b>              | <b>Tueddfryd rhywiol</b>         | <b>Math o gontract</b>  |
| <b>Priodas a phartneriaeth sifil</b> |                         |                          |                                  |                         |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac â'r math o gontract er bod y meysydd hyn yn dod o dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

**Enw neu deitl y polisi: -**

Gweithdrefn 01: Trefn Cwynion Myfyrwyr

<sup>1</sup> Er y defnyddir y gair POLISI trwy'r templed hwn, dylid ei newid iSTRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel sy'n briodol

| <b>Gwybodaeth am y polisi:</b>                                             |                                                                                                                                                                                                |
|----------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Beth yw pwrpas y polisi                                                    | Mae'r weithdrefn hon ar gyfer yr holl fyfyrwyr neu gyn-fyfyrwyr sy'n dymuno gwneud cwyn am eu rhaglen (cwrs) academiaidd neu am unrhyw wasanaethau eraill sy'n cael eu cynnig gan y brifysgol. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi?                                             | Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio                                                                                                                                                          |
| Sut mae'r polisi'n cysylltu â blaenoriaethau strategol y brifysgol?        | Ein cenhadaeth: "Profiad cynhwysol".<br>Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawus a chynhwysol".                                                                                           |
| Pa grwpiau sy'n randdeiliaid yn y polisi?                                  | Myfyrwyr.<br>Myfyrwyr (cyn-fyfyrwyr a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf).<br>Staff.                                                                                                    |
| A fydd y polisi'n cael ei weithredu'n unffurf ym mhob maes yn y brifysgol? | Bydd.                                                                                                                                                                                          |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt.                       | Myfyrwyr.<br>Myfyrwyr (cyn-fyfyrwyr a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf).<br>Staff.                                                                                                    |

| <b>A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)</b> |                                                                                                                                                                                                         |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?      | Pwrpas y weithdrefn yw sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr (fel y'u diffinnir yng Ngweithdrefn 01 - Adran 6.) i fynd i ymdrin ag unrhyw gwynion sydd ganddynt. |
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal?                                          | Bwriad y weithdrefn yw sicrhau bod pob parti yn cael cyfle cyfartal a diogelu hawl pob myfyriwr i gwyno. Ystyrir amgylchiadau lliniarol wrth bennu canlyniadau.                                         |

## Adolygiad Tachwedd 2018

|                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                      |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Bwriedir i'r weithdrefn ddatrys gwrthdaro yn y cyfnod cynharaf, a lle bo'n briodol, yn y ffordd fwyaf anffurfiol bosib. Mae'r weithdrefn yn dilyn "Fframwaith Arfer Da" yr OIA a'i nod yw gwella gwasanaethau a phrofiad y myfyriwr. |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

| <b>Monitro</b>                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|---------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r weithdrefn. Mae adfyfrio neu ôl-gyfarwyddo'n digwydd ar ddiwedd pob cwyn a chaiff unrhyw argymhellion o ran y weithdrefn eu nodi bryd hynny. Dadansoddir cwynion yn flynyddol gan nodi'r tueddiadau ac adrodd arnynt i'r grwpiau tasg perthnasol. |

| <b>Ymgynghori</b>                                           |                                                                                                                                                                                                                           |
|-------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi?   | Y Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd a'r Achosion Arbennig sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.                                                                                                              |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad?                           | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod staff neu fyfyrwr awgrymu newidiadau i'r weithdrefn trwy'r Uwch Swyddog Cydymffurfio a Rheoliadau. |
| Sut mae'r ymgynghoriad wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cynyddu hygyrchedd y weithdrefn i ddefnyddwyr. Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu cynnwys.                                              |

| <b>Gweithredu</b>                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|---------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut y gweithredir y polisi?                 | <p>Y Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd a'r Achosion Arbennig sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.</p> <p>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn <a href="http://www.bangor.ac.uk">www.bangor.ac.uk</a> a hefyd mewn print ar gais. Cyflwynir sesiynau briffio gweithdrefnau cwynion bob blwyddyn a gall unrhyw aelod staff fynd i'r sesiynau.</p> |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi? | Yr Uwch Swyddog Cydymffurfio a Rheoliadau sy'n gyfrifol am reoli'r weithdrefn.                                                                                                                                                                                                                                                                                |

| <b>Monitro</b>                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|---------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Sut bydd y polisi'n cael ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod?              | <p>Mae pob cwyn yn dilyn y weithdrefn ac mae unrhyw faterion sy'n codi yn deillio o'r weithdrefn yn cael eu hadolygu ar yr adeg honno.</p> <p>Mae monitro a chyflwyno adroddiadau parhaus i'r Pwyllgor Rheolau'r Senedd ac Achosion Arbennig yn digwydd fel rhan o galendr blyneddol y brifysgol.</p> |
| Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi?                                                   | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau nad yw'n gosod grwpiau penodol dan anfantais? | Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.                                                                                                                                                                                                 |
| Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion?                | Mae'r weithdrefn hon ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei brofi bob tro y caiff ei ddefnyddio.                                                                                                                                                                                                    |

| <b>Goblygiadau o ran adnoddau</b>                                                                           |                                                                                                                                                                                                                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Hyfforddi – a oes unrhyw ofynion hyfforddi yn gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn? | <p>Mae Fframwaith Arfer Da OIA yn disgwyl bod holl staff y brifysgol yn gyfarwydd â'r Weithdrefn Cwynion.</p> <p>Cyflwynir sesiynau briffio gweithdrefnau cwynion a gall unrhyw aelod staff fynd i'r sesiynau.</p> |
| Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn?     | <p>Mae adnoddau ar-lein yn cael eu datblygu a byddant ar gael yn <a href="http://www.bangor.ac.uk">www.bangor.ac.uk</a></p>                                                                                        |

| <b>ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU</b>      |                  |
|--------------------------------------------|------------------|
| 3 blynedd                                  |                  |
| <b>ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD</b> |                  |
| Steve Barnard                              | 27 Tachwedd 2018 |

### Nodiadau ategol

**Nid ar bolisiau a threfniadau'n unig y dylid cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ond ar benderfyniadau strategol a phenderfyniadau gweithredol. Mae arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Mai 2012) fel a ganlyn: ".....dylid deall polisi yn fras i gynnwys amrywiaeth lawn eich polisiau, darpariaethau, meini prawf, swyddogaethau, arferion a gweithgareddau yn cynnwys darparu gwasanaethau - yn sylfaenol, popeth rydych yn ei wneud"**

**Nid yw'r rheoliadau ar ddyletswyddau penodol yn rhagnodi trefniant cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gellir amrywio'r dull er mwyn adlewyrchu anghenion gwahanol fathau o bolisiau a threfniadau. Yn ddelfrydol, dylai Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisiau a dylent gael eu cynnal gan staff sy'n gyfrifol am y polisi ac wedi cael hyfforddiant cydraddoldeb. Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys aelod staff o'r tu allan i'r grŵp a allasai gynnig safbwynt gwahanol ar y trafodaethau.**

**Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith ystyried pob un o'r nodweddion wedi eu diogelu o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n benodol i Gymru. Gall fod yn briodol ystyried gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg a materion cyflogaeth yn ymwneud â mathau o gontract sydd yn dod o dan ddeddfwriaeth wahanol**

**Dyma elfennau allweddol Asesiad Effaith Cydraddoldeb:**

**Beth yw ef (polisi, proses, strategaeth)?**

**Pwy sy'n gyfrifol?**

**Pwy sy'n cael ei effeithio?**

**Pa dystiolaeth sydd yno i lywio'r broses?**

**Pwy sydd wedi bod yn rhan o'r ymgynghori?**

**Ar sail y dystiolaeth - a oes problemau?**

**A ellir gwneud unrhyw beth a fydd o gymorth cadarnhaol i gyfle cyfartal?**

**Cynlluniau ar gyfer monitro ac adolygu**

**Cofnodi'r canlyniad a chadarnhau'r asesiad.**

**Ystyriwch sut caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei gofnodi? Ar hyn o bryd, nid oes gan y brifysgol gronfa ddata ganolog i gofnodi na chyhoeddi Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Un awgrym yw efallai y byddwch am ystyried**

Adolygiad Tachwedd 2018

**cofnodi ar flaenddalén y polisi pryd y cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, gan bwy a lle gellir cael gafael arno. Gellid cadw ffeil Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yriant cyfrifiadurol yr uned/adran/gwasanaeth fel cadwrfa i'r holl asesiadau effaith cydraddoldeb yng nghylch gorchwyl y maes.**